# Hysbysiad Preifatrwydd yn Ymwneud â Phrosesu Data Personol ar gyfer y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF) a'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (YEPS)

## (Fersiwn 1.0 – er 01.09.2026)

DIOGELU DATA PROTECTION

MAE EICH DATA O BWYS YOUR DATA MATTERS

## Ynglŷn â'r hysbysiad preifatrwydd yma

Mae'r hysbysiad preifatrwydd yma'n berthnasol i brosesu data personol gan ysgolion uwchradd a phob oed. Ei nod yw darparu gwybodaeth am sut y bydd yr ysgol yn defnyddio (neu'n 'prosesu') data personol am unigolion, gan gynnwys ei disgyblion a'u rhieni, cynhalwyr neu warcheidwaid (y cyfeirir atyn nhw yn yr hysbysiad yma fel 'rhieni') at ddibenion cefnogi cyflawni'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ("y Fframwaith") a'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid ("y Gwasanaeth").

Menter gan Lywodraeth Cymru yw'r Fframwaith. Ei nod yw nodi a chefnogi pobl ifainc a allai fod yn wynebu risg o beidio â bod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET), neu a allai fod angen cymorth ychwanegol arnyn nhw i gyflawni deilliannau cadarnhaol. Mae'r Fframwaith yn hybu ysgolion, awdurdodau lleol, Gyrfa Cymru a sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chefnogi pobl ifainc i weithio'n rhan o bartneriaeth.

Cliciwch yma am restr lawn o'r ysgolion y mae'r hysbysiad preifatrwydd yma'n berthnasol iddyn nhw.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd yma wedi'i ddarparu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ("y Cyngor") ar gyfer ac ar ran ysgolion o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth diogelu data.

## Cyflwyniad

Bwriad yr hysbysiad preifatrwydd yma yw darparu gwybodaeth am sut y bydd yr ysgol yn defnyddio (neu'n 'prosesu') data personol am unigolion gan gynnwys ei disgyblion a'u rhieni, cynhalwyr neu warcheidwaid (y cyfeirir atyn nhw yn yr hysbysiad fel 'rhieni') at ddibenion cefnogi cyflawni'r Fframwaith a'r Gwasanaeth.

Er ein bod ni wedi ceisio gwneud yr hysbysiad preifatrwydd yma mor glir a chryno â phosibl, mae'n bosibl y bydd y categorïau o ddata personol rydyn ni'n eu prosesu yn amrywio yn dibynnu ar fwriad y disgybl o ran addysg uwch, amgylchiadau personol a'r rhaglenni maen nhw'n ymrestru arnyn nhw, ac ati.  Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch chi yn ymwneud â phrosesu data personol at ddibenion y Gwasanaeth, mae croeso i chi gysylltu â'r Swyddog Arweiniol Diogelu Data.

Dim ond y lleiafswm o wybodaeth bersonol sydd ei hangen mewn perthynas â'r diben fydd yn cael ei phrosesu.

Dylid darllen yr hysbysiad yma ar y cyd â Hysbysiad Preifatrwydd Cyffredinol yr ysgol sydd ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â'r Arweinydd Diogelu Data.

## Y Rheolwr Data

Yr ysgol yw'r rheolwr data ar gyfer y data personol rydyn ni'n eu prosesu, oni nodir yn wahanol. Mae hyn yn cynnwys y data personol a gaiff eu prosesu gan y corff llywodraethu, y pennaeth, llywodraethwyr unigol, athrawon, cynorthwywyr addysgu a staff cymorth, ac ati.

Mae'r ysgol wedi'i chofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn rheolwr.

## Sut i gysylltu â ni ynghylch materion neu bryderon diogelu data

Swyddog Arweiniol Diogelu Data'r ysgol yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer materion diogelu data. Mae modd cysylltu â'r Swyddog Arweiniol Diogelu Data gan ddefnyddio ein dulliau cyswllt arferol, sef dros y ffôn, drwy e-bost, drwy anfon llythyr ac wyneb yn wyneb yn yr ysgol.

Cliciwch yma am fanylion cyswllt.

## Y Swyddog Diogelu Data

Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth cymorth diogelu data i'r ysgol o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth, gan gynnwys darparu Swyddog Diogelu Data.

Mae modd cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data mewn perthynas â materion diogelu data. Serch hynny, dyma eich annog i gysylltu â'r ysgol yn y lle cyntaf. Os bydd angen i chi gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn uniongyrchol, gallwch chi wneud hynny drwy anfon e-bost i'r cyfeiriad canlynol:

- rheoli.gwybodaeth@rctcbc.gov.uk

Wrth gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data, dyma argymell eich bod yn anfon copi o'r ohebiaeth at yr ysgol yn rhan o'i swyddogaeth yn rheolwr data.

## Y mathau o ddata personol rydyn ni'n eu prosesu

Rydyn ni'n prosesu'r categorïau canlynol o ddata personol at ddibenion y Fframwaith a'r Gwasanaeth.

Data Personol sy'n Ymwneud â Disgyblion

- Gwybodaeth bersonol megis enw, dyddiad geni, grŵp blwyddyn, a Rhif Unigryw y Disgybl
- Manylion cyswllt megis cyfeiriad, rhif ffôn, a chyfeiriad e-bost
- Gwybodaeth ynghylch mynychu'r ysgol
- Gwybodaeth ynghylch gwaharddiadau
- Gwybodaeth ynghylch cyrhaeddiad a chynnydd addysgol
- Gwybodaeth ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Gwybodaeth ynghylch cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim
- Gwybodaeth ynghylch cyrchfannau sy'n ymwneud ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant
- Gwybodaeth ynghylch cymryd rhan mewn rhaglenni addysg, cyflogaeth, hyfforddiant neu gymorth
- Gwybodaeth ynghylch dangosyddion bod yn agored i niwed sy'n cael eu defnyddio i nodi pobl ifainc a allai fod yn wynebu risg o ddod yn ddi-waith heb fod mewn addysg na hyfforddiant
- Gwybodaeth ynghylch anghenion cymorth a threfniadau cymorth
- Gwybodaeth ynghylch iechyd neu wybodaeth feddygol lle bo'n berthnasol i gefnogi gwaith cynllunio a gweithgareddau ymyraethau

Data Personol sy'n Ymwneud â Rhieni

- Gwybodaeth bersonol megis enw a pherthynas â'r disgybl
- Manylion cyswllt megis cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost

## Pam rydyn ni'n prosesu data personol?

Rydyn ni'n prosesu data personol i gefnogi cyflwyno'r Fframwaith a'r Gwasanaeth cysylltiedig.

Mae modd i hyn gynnwys y gweithgareddau canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddyn nhw:

- Nodi pobl ifainc a allai fod yn wynebu'r risg o fod yn ddi-waith heb fod mewn addysg na hyfforddiant
- Nodi pobl ifainc a allai fod angen cymorth ychwanegol arnyn nhw
- Cefnogi pobl ifainc i barhau i ymgysylltu ag addysg
- Cefnogi pobl ifainc sy'n ddi-waith heb fod mewn addysg na hyfforddiant i ailgydio mewn addysg
- Cefnogi proses bontio lwyddiannus o'r ysgol i addysg bellach.

## Ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data personol

Yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR y DU), ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data personol at y dibenion a nodir yn yr hysbysiad yma yw:

- Rhwymedigaeth Gyfreithiol - Erthygl 6(1)(c) – prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer rhwymedigaeth gyfreithiol sydd wedi'i rhoi i'r rheolwr.
- Tasg Gyhoeddus – Erthygl 6(1)(e) – prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r rheolwr.
- Buddiant Cyhoeddus Sylweddol – Erthygl 9(2)(g) – lle mae data personol categori arbennig yn cael eu prosesu.

Y ddeddfwriaeth sylfaenol, rheoliadau a chanllawiau sy'n ategu'r prosesu yma yw:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid: Llawlyfr
- Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid: Canllawiau ar Rannu Data
- Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid: Canllawiau ar Nodi'n Gynnar

## Gan bwy ac o ble rydyn ni'n casglu data personol?

Mae'n bosibl y bydd data'n dod i law gan:

- Disgyblion
- Rhieni a gwarcheidwaid
- Staff yr ysgol
- Gwasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Gyrfa Cymru
- Darparwyr Addysg Bellach
- Darparwyr Dysgu yn y Gweithle
- Y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid
- Sefydliadau eraill sy'n ymwneud â darparu cefnogaeth i bobl ifainc o dan y Fframwaith

## Gyda phwy rydyn ni'n rhannu data personol?

Mae'n bosibl y byddwn ni'n rhannu data personol â'r sefydliadau canlynol at ddibenion y Fframwaith a'r Gwasanaeth. Dim ond y lleiafswm o ddata personol sydd eu hangen mewn perthynas â'r diben fydd yn cael eu rhannu.

| Pwy | Diben |
|---|---|
| Y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid | • Nodi'r cymorth perthnasol sydd ei angen ar y person ifanc dan sylw<br>• Trefnu gweithiwr achos a darpariaeth ymyrraeth briodol<br>• Sicrhau diogelwch a lles pobl ifainc gan gynnwys unrhyw wybodaeth iechyd a diogelwch (yn achos damwain)<br>• Rhannu gwybodaeth â phaneli perthnasol i sicrhau bod y ddarpariaeth fwyaf priodol yn cael ei darparu i gefnogi'r person ifanc |

## Proseswyr Data

Mae prosesydd data yn gwmni neu sefydliad sy'n prosesu data personol ar ran rheolwr. Mae'r ysgol yn defnyddio proseswyr data sy'n darparu gwasanaethau i ni. Dyma'r categori o broseswyr data y mae'r ysgol yn ei ddefnyddio mewn perthynas â data ôl-16 oed:

- Cyflenwyr systemau/darparwyr gwasanaethau TG

Mae ein proseswyr data yn gweithredu ar ein cyfarwyddyd ni yn unig. Does dim hawl iddyn nhw wneud unrhyw beth â’r data personol ac eithrio ein bod ni'n eu cyfarwyddo i wneud hynny. Fyddan nhw ddim yn rhannu'r data personol ag unrhyw sefydliad ar wahân i ni nac yn eu defnyddio at eu dibenion eu hunain. Byddan nhw'n eu cadw'n ddiogel am y cyfnod rydyn ni wedi'u cyfarwyddo i wneud hynny.

Os oes gennych chi ymholiad penodol yn ymwneud â’n proseswyr data, cysylltwch â’r Swyddog Arweiniol Diogelu Data.

## Am ba mor hir byddwn ni'n cadw'r data personol?

Rydyn ni'n cadw data personol perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y Fframwaith a'r Gwasanaeth fel a ganlyn:

| Cofnod | Disgrifiad cryno o'r cofnod | Darpariaeth statudol | Cyfnod cadw'r wybodaeth |
|---|---|---|---|
| Atgyfeiriad i YEPS | Atgyfeiriad cychwynnol i YEPS, gan gynnwys gwybodaeth ategol wedi'i chyflwyno i nodi anghenion cymorth | Gofynion gweithredol y Fframwaith | 6 mlynedd ar ôl i ran YEPS ddod i ben |

Er mwyn dilyn egwyddor storio data'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, mae'r cofnodion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Ni chaiff yr holl ddata personol eu cadw. Dim ond data personol sy'n berthnasol sy'n cael eu cadw am y cyfnod cyfan. Caiff unrhyw wybodaeth sy'n amherthnasol yn yr hir dymor neu sy'n amherthnasol o ran tystiolaeth ei dinistrio yn rhan o arferion busnes arferol.

## Eich hawliau o ran diogelu data

O dan gyfraith diogelu data, mae gennych chi hawliau y mae angen i ni roi gwybod i chi amdanyn nhw. Mae'r hawliau sy'n berthnasol i chi yn dibynnu ar ein rheswm dros brosesu eich data personol.

**Eich hawl i weld eich data personol**

Mae gennych chi'r hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch data personol. Mae'r hawl yma'n berthnasol ar bob adeg. Mae rhai eithriadau, sy'n golygu efallai na fyddwch chi bob amser yn derbyn yr holl ddata rydyn ni'n eu prosesu. Cewch ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

**Eich hawl i'ch data gael eu cywiro**

Mae gennych chi'r hawl i ofyn i ni gywiro data personol sy'n anghywir yn eich barn chi. Hefyd, mae gennych chi'r hawl i ofyn i ni gwblhau data sy'n anghyflawn yn eich barn chi. Mae'r hawl yma'n berthnasol ar bob adeg. Cewch ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

**Eich hawl i gael eich data wedi'u dileu**

Mae gennych chi'r hawl i ofyn i ni ddileu eich data personol mewn rhai amgylchiadau. Cewch ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

**Eich hawl i gyfyngu ar sut mae sefydliadau'n defnyddio'ch data**

Mae gennych chi'r hawl i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu eich data personol mewn rhai amgylchiadau. Cewch ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

**Eich hawl i wrthwynebu'r defnydd o'ch data**

Mae gennych chi'r hawl i wrthwynebu i ni brosesu eich data personol mewn rhai amgylchiadau. Cewch ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

**Eich hawl o ran eich data'n cael eu rhannu â sefydliadau eraill**

Mae hyn ond yn berthnasol i ddata personol rydych chi wedi eu rhoi i ni. Mae gennych chi'r hawl i ofyn i ni drosglwyddo'r data personol rydych chi wedi'u rhoi i ni o un sefydliad i'r llall neu eu rhoi i chi. Mae'r hawl yma ond berthnasol os ydyn ni'n prosesu'r data personol gyda'ch caniatâd, neu os ydyn ni'n trafod ymrwymo i gontract ac mae'r prosesu'n awtomatig. Cewch ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Does dim rhaid i chi dalu am arfer eich hawliau. Mae gennyn ni fis i ymateb i'ch cais o'r dyddiad y caiff eich cais ei ddilysu. Gallwn ni ymestyn y cyfnod yma am ddau fis arall os yw'r cais yn gymhleth neu os bydd nifer o geisiadau'n dod i law gennych chi.

Cysylltwch â Swyddog Arweiniol Diogelu Data'r ysgol os ydych chi'n dymuno gwneud cais.

**Eich hawl i gyflwyno cwyn am ddiogelu data i'r ysgol**

Mae gennych chi'r hawl i gwyno i'r ysgol os ydych chi o'r farn ein bod ni ddim wedi trin eich data personol yn gyfrifol ac yn unol ag arfer da.

Os oes gennych chi bryder, dyma'ch annog i gysylltu â'r Swyddog Arweiniol Diogelu Data yn y lle cyntaf. Mae modd datrys y rhan fwyaf o bryderon yn gymharol gyflym trwy alwad ffôn syml neu e-bost i'r ysgol. Os ydych chi'n dymuno gwneud cwyn ffurfiol, mae modd gwneud hynny drwy ein polisi cwynion.

**Eich hawl i gyflwyno cwyn am ddiogelu data i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)**

Cewch hefyd gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) os ydych chi'n anfodlon â sut rydyn ni wedi defnyddio'ch data.

Gwybodaeth gyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO):

- Cyfeiriad: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF
- Rhif y llinell gymorth: 0303 123 1113
- Gwefan: https://cy.ico.org.uk/

**Rheoli'r fersiwn**

| Rhif y fersiwn | Dilys o | Dilys hyd at | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 1.0 | 01.09.2026 | | Llunio'r ddogfen |